Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



# Atal Llygredd Dŵr Mewndirol ac Arfordirol: Cyngor ar Danciau Septig a Thriniaeth Pecynnau Bach i berchnogion tai a busnesau.

Os nad yw eich eiddo wedi'i gysylltu â charthffos gyhoeddus (fel y rhan fwyaf o gefn gwlad Cymru), mae'n debyg bod gennych system garthffosiaeth breifat. Gall hyn fod yn uned trin carthion cryno, yn danc carthion, neu'n geubwll/carthbwll. Os **nad yw'r systemau hyn yn cael eu cynnal neu eu gwagio'n rheolaidd**, gallant beryglu eich iechyd chi a'ch teulu a llygru ein hafonydd a'n hamgylchedd morol. Gallai eich ymdrechion helpu i atal swm eithafol o Nitrogen, Ffosfforws, olewau, cemegau a llygryddion eraill rhag treiddio'n anweledig i mewn i ddyfrffyrdd.

## Sut mae systemau carthffosiaeth preifat yn gweithio?

**1) Tanciau Carthion:** siambrau o dan y ddaear yw'r rhain sy'n caniatáu bacteria i dorri gwastraff i lawr yn ddiogel. Mae deunyddiau soled yn suddo i'r gwaelod gan ffurfio "slwtsh", tra mae'r hylif yn llifo i gae draenio lle mae mwy o facteria yn ei drin wrth iddo fwydo i'r ddaear. Mae'n bwysig iawn nad yw'r systemau yn cael eu gorlwytho fel nad ydynt yn gollwng i gyrsiau dŵr!


**2) Ceubwll:** Yn syml, pwll i gasglu a storio gwastraff o dan y ddaear. Oherwydd hyn, mae'n rhaid ei wagio bob mis gan gontractwr trwyddedig. Mae eu harchwilio'n rheolaidd am ollyngiadau hefyd yn allweddol er mwyn iddynt weithio'n ddiogel.

**3) Pwll Cess:** Pwll yn unig yw hwn i gasglu a storio gwastraff o dan y ddaear. Am y rheswm hwn, rhaid iddynt gael eu gwagio'n fisol gan gontractwr trwyddedig. Mae archwilio gollyngiadau yn rheolaidd hefyd yn hanfodol i'w gweithrediad diogel.


Pa bynnag system sydd gennych, pan nad yw'n gweithio neu'n cael ei gynnal yn iawn, gall bob un ryddhau carthion amrwd gan arwain at lygredd dŵr yn y ddaear, mewn afonydd, nentydd ac yn y môr.

**Cyfrifoldeb cyfreithiol y Perchennog yw sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol. Mae'n rhaid cadw cofnodion cynnal a chadw am gyfnod o bum mlynedd.**

1)



2)



3)



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

TEIFI
Bwrdd Rheoli Maetholion
Nutrient Management Board

## Canllawiau arfer gorau

**1) Dewch i adnabod eich system**
Ble mae eich tanc? Dylai'r clawr metal neu goncrid fod yn weledol. Mae fel arfer wedi'i osod islaw'r eiddo. Ydy e'n cael ei rannu? Gofynnwch i'ch cymdogion i gael gwybod hynny. Ble mae'n gollwng? Ydydch chi'n gwybod ble mae eich suddfan dŵr (soakaway)?

**2) Gwiriwch eich system**

Gwiriwch nad yw'r suddfan dŵr yn ddyfrlawn ac nad oes pyllau o ddŵr yn rhedeg i ffosydd neu gyrsiau dŵr Dylai'r elifion tu mewn i'r siambr fod yn glir neu'n olau, as yn ddiarogl.

**3) Cadw'r cydbwysedd**

Bydd cynnyrtch sy'n 'addas ar gyfer tanciau carthion' ac yn 'gyfeillgar i'r amgylchedd' yn helpu i gynnal y bacteria iach yn eich tanc. Osgowch gemegau fel cannydd, diheintyddion, a chynnyrch gwrthfacteriol. Mae'r rhain yn lladd bacteria iach sy'n trin eich elifion. Nid yw systemau carthffosiaeth domestic yn gallu diddymu ffosffadau a gall rhain gyfrannu at ewtroffigedd mewn cyrff dŵr Mae hyn yn digwyddyn fwy aml yn ystod hafau sych. Rydym yn argymell defnyddio cynnyrch di-ffosffad!

**4) Defnyddiwch eich bin yn hytrach na'r sinc!**

Mae gwastraff ty yn gallu blocio new ddifrodi eich system a dylid cael gwared ar wastraff yn y dull cywir. Peidiwch byth â gollwng y canlynol lawr y draen: Papur cegin, weips, bydiau cotwm, clytiau, eitemau iechydol, olewau, braster, saim, paent, hydoddyddion, meddyginiaeth a chemegau. Bydd y rhain i gyd yn difrodi, yn tagu ac yn bygwth gweithrediad eich system, hyd yn oed yn lladd y bacteria sy'n torri eich gwastraff i lawr. Defnyddiwch hidl sinc cegin i atal gwastraff bwyd rhag llenwi eich tanc, a gwaredwch hylifau peryglus mewn safleoedd gwaredu gwastraff.

**DIM OND PI-PI, PŴ a PHAPUR I LAWR Y TOILED**

**5) Peidiwch â gor-ddyfrio**
Gall gyfeintiau mawr o ddŵr orlethu eich tanc, gan wacau carthion heb eu trin cyn i'r broses facteria gael cyfle i ddigwydd. Gwnewch yn siŵr nad yw gwterri'r to wedi eu cysylltu â'ch system as osgpwch redeg peiriannau golchi llestri a pheiriannau golchi dillad sawl gwaith y diwrnod, syn gallu arwain at orlwytho.

## Cydymffurfio â'r gyfraith

**1) Dilynwch y gyfaith**

Mae unrhyw weithgarwch sy'n golygu rhyddhau hylif i'r ddaear neu i gwrs dŵryn gofyn am drwydded amgylcheddol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tanciau carthion ac unedau trin carthion cryno wedi eu heithrio rhag yr angen am drwydded. Mae'n rhaid i chi, er hynny, gofrestru eich tanc carthion neu eich uned trin carthion cryno fel un sydd wedi'i eithrio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges-and-septic-tanks/septic-tanks-and-private-sewage-systems/?lang=cy

**2) Atgyweirio diffygion**

Gall elifiant wedi'i staenio, arogleuon, ewyn, suddfan dŵr corsiog, tyfiant glaswellt gormodol a ffwng carthion (lliw llwyd tebyg i gotwm) mewn dyfrffyrdd lleol fod yn arwydd nad yw systemau gerllaw yn gweithio'n iawn. Y broble fwyaf cyffredin yn syml iawn yw bod angen gwagio'r tanciau neu fod peipiau wedi eu blocio (gellid clirio'r rhain gyda dŵr berwedig a/neu wialen). Mae'n hollbwysig bod problemau yn cael eu cyweirio'n syth bin, gan osgoi llygredd, peryglon i iechyd, peryglon i dda byw a biliau atgweirio cynyddol.

**3) Gwagu'n rheolaidd**

Mae'n rhaid gwqagio pob system yn rheolaidd! Mae pa mor aml y gwneir hynny'n dibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt a pha mor dda mae'r system yn cael ei drin. Bydd gwagio'r system bob blwyddyn gan gwriwr gwastraff cofrestredig yn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn ac yn lleihau'r peryglon.

**4) Cadw cofnod**

Cyfrifoldeb cyfreithiol y Perchennog yw sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol. Dylid cadw cofnodion cynnal a chadw am gyfnod o bum mlynedd.
Wrth werthu eiddo, dylech hysbysu'r prynwr yn ysgrifengedig bod tanc carthion yn bresonnol a darparu cofnodion cynnal ar ei gyfer.